# Gwybodaeth i Gleifion

# Ystum mewn Cadair Olwyn

## Gwasanaeth Ffisiotherapi

**Rhifau Ffôn Cyswllt Defnyddiol:**

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau/atgyweiriadau cadair olwyn | 01443 661799/761 |
| Peirianneg Adsefydlu | 02920 313931 |
| Ffisiotherapi Anableddau Dysgu Oedolion | 01633 656300 |



Darparwyd y wybodaeth hon gan:

Ffisiotherapi i Oedolion ag Anableddau Dysgu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## GWYBODAETH DDEFNYDDIOL AG ANGHENION YSTUM MEWN CADEIRIAU OLWYN



## *Cwestiynau i'w hystyried os yw rhywun rydych chi'n ei gefnogi yn ymddangos yn anghyfforddus neu os yw ei osgo wedi newid yn ei sedd*

- A yw'n ymddangos bod y person mewn unrhyw boen? Os yw, a oes rheswm dros hyn neu a oes angen ymchwilio pellach?
- Gwiriwch gyflwr eu croen. Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw ardaloedd coch (yn enwedig dros unrhyw rannau esgyrnog)?
- A gawsant eu codi i'r sedd yn gywir? Ydyn nhw wedi llithro ymlaen? A oes lle rhwng eu pen ôl/cefn a chefn y sedd? Os oes angen, DEFNYDDIO TECLYN CODI ETO AC ADOLYGU.
- A yw'r ddwy ffolen mewn cysylltiad â chlustog y sedd? Os nad ydynt, holwch eich hun a oes rheswm dros hyn. Os oes angen, DEFNYDDIO TECLYN CODI ETO AC ADOLYGU.
- Ydyn nhw'n pwyso i un ochr? Ystyriwch orffwysfa fraich neu ddefnyddio hambwrdd. Os oes angen, DEFNYDDIO TECLYN CODI ETO AC ADOLYGU.
- A yw pob strap a chynheiliad yn y lle cywir (gwregys côl, harnais i'r frest, cynheiliaid ochr a strapiau traed)?
- A yw pob strap wedi'i glymu yn ôl yr angen (ddim yn rhy dynn na rhy llac)?
- A yw eu pen mewn safle da yn unol â'r clustog pen. Ydyn nhw'n cael problemau bwyta neu yfed?
- A yw eu traed yn cael eu cynnal?
- A ydynt wedi twco eu breichiau rhwng eu corff ac ochr y gadair?

Ar ôl mynd i'r afael â'r holl gwestiynau uchod os nad ydych yn hapus o hyd gyda'r cynhaliad a'r ystum yn y tymor byr ystyriwch safle neu ddarn amgen o offer a chysylltwch â'ch Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol neu ddarparwr seddau.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**